# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT2 08-05

Dyddiad y cyfarfod: 8 Mehefin 2005
Amser y cyfarfod: 9.00-12.30
Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Tamsin Dunwoody-Kneafsey | Preseli Sir Benfro |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

### Swyddogion

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Rhaglen Newid |
| Peter Sims | Masnach a Buddsoddi Cymru |
| Rob Williams | Masnach a Buddsoddi Cymru |

### Eraill

| | | Eitem(au) |
|---|---|---|
| Steve Thomas | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 2 |
| Dr Kevin Bishop | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 2 |
| David Rosser | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain | 2 |
| Gareth Howells | Prospect | 3 |
| Howard Marshall | Unsain | 3 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Sian Wilkins | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cadeirydd, Christine Gwyther. Enwebwyd dau Aelod i fod yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod. Enwebwyd Alun Cairns gan Elin Jones ac enwebwyd Carl Sargeant gan Leighton Andrews. Pleidleisiodd y Pwyllgor ac etholwyd Alun Cairns o bum pleidlais i bedair.

O blaid Alun Cairns - Alun Cairns, Janet Davies, Lisa Francis, Elin Jones, Kirsty Williams

O blaid Carl Sargeant - Leighton Andrews, Andrew Davies, Tamsin Dunwoody-Kneafsey, Carl Sargeant

1.3 Nododd y Cadeirydd fod aelodaeth y Pwyllgor wedi newid ac nad oedd Jenny Randerson bellach yn aelod o'r Pwyllgor. Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch iddi am ei holl waith caled a chroesawodd Kirsty Williams i'r Pwyllgor.

## Eitem 2: Uno'r CCNCau â'r Llywodraeth - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru
## Papur: EDT2 08-05 (p1)
## EDT2 08-05 (p2)
## EDT2 08-05 (p3)

2.1 Gwnaeth Leighton Andrews ddatgan buddiant gan ddweud bod ei wraig yn aelod o Gyngor CBI Cymru.

Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu i'r Aelodau fanylion y model costau a ddefnyddiwyd i bennu'r arbedion posib ar gyfer yr uno, ynghyd â'r wybodaeth fanylach a ryddhawyd yn ddiweddar o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Cytunodd y Gweinidog y byddai'n darparu ffigurau manylach i'r Pwyllgor ar arbedion yr uno pan fyddent ar gael.

## Eitem 3: Uno'r CCNCau â'r Llywodraeth - Undebau
## Papur: EDT2 08-05 (p4)

3.1 Gwnaeth Elin Jones ddatgan buddiant gan ddweud bod ganddi bensiwn Awdurdod Datblygu Cymru a gâi ei reoli gan RCT.

## Camau i'w cymryd

Cytunodd y Cadeirydd y câi datganiad y Prif Weinidog ar 7 Mehefin ynghylch uno'r CCNCau â'r Llywodraeth ei ddosbarthu i'r Aelodau.

## Eitem 4: Deddfwriaeth Uno'r CCNCau â'r Llywodraeth
## Papur: EDT2 08-05 (p5)
## Camau i'w cymryd

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes yn gofyn iddo gyfeirio'r rheoliadau ynghylch yr uno at y Pwyllgor i'w trafod yn fanwl cyn penderfynu arnynt.

## Eitem 5: Adroddiad y Gweinidog
## Papur: EDT2 08-05 (p6)
## Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i drafod llygredd cadmiwm yn y diwydiant amaethyddol yn benodol â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ac i adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor.

Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar y gwaith a wnaed gan Fwrdd Croeso Cymru i sicrhau bod mwy o lety a bwytai ar gael mewn ardaloedd lle y ceir llwybrau beic mynydd.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar farchnata SMART Cymru ac i ddarparu ffigurau sy'n dangos sawl cwmni sydd wedi manteisio arno, ynghyd â chyfradd llwyddo'r cynllun.

Cytunodd y Cadeirydd y câi amser ei neilltuo ym mlaenraglen waith y Pwyllgor i ystyried prisio ffyrdd.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i ddatblygu llwybrau cenedlaethol fel cyfleusterau i dwristiaid.

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gau Deeside Furniture ac yn benodol ar unrhyw gynlluniau ar gyfer y ffatri.

Cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar y camau a gymerwyd ganddo i lobïo Llywodraeth y DU ynghylch y Cymorth Lansio a roddwyd i Airbus er mwyn datblygu adenydd yr A350 ym Mrychdyn.

Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gau'r llinell bacio yn Organic Farm Foods yn Llanbedr Pont Steffan.

## Eitem 6: Cymorth Rhanbarthol Dewisol
## Papur: EDT2 08-05 (p7)
## Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad mwy cynhwysfawr i'r Pwyllgor ar farchnata elfen Premium Plus y cynllun RSA

## Eitem 7: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a materion sy'n codi
## Papur: EDT2 06-05 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai
## Papur: EDT2 07-05 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai
## Papur: EDT2 08-05 - Camau heb eu cymryd

5.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 a 26 Mai yn gywir.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau